LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Medi/ Hydref 2022 Cyfrol 93 Rhif 4

## BEIBL I BAWB

Llongyfarchiadau mawr iawn i Arfon Jones ar ennill gradd D.D., er anrhydedd, gan Goleg y Brifysgol Bangor. Anrhydeddwyd Arfon gyda'r ddoethuriaeth - ar ddydd Llun y 4ydd o Orffennaf -



oherwydd ei waith eithriadol yn cyfieithu'r Beibl i Gymraeg dros gyfnod o 17 mlynedd. Tros y blynyddoedd hynny gweithiodd yn ddygn, weithiau ddydd a nos, yn ymaflyd yn fyfyrgar a gweddigar dros adrannau o'r Beibl a hynny mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Beibl a charedigion Gobaith i Gymru. Gweledigaeth Arfon ar y dechrau cychwyn oedd y byddai'r testun yn ymddangos ar

Parhâd ar dud. 3

## ARWYDD O'N DIOLCH

Cyflwynwyd rhodd gan Alun ar ran yr eglwys, i'n dau o'n diaconiaid mwyaf profiadol, sef Malcolm Thomas ac Eira Jones. Neilltuwyd y ddau ohonynt i'r ddiaconiaeth ym 1970 gan y Parch. Dr. Emlyn Jenkins. Eira oedd y Diacon benywaidd cyntaf yn hanes yr achos, ac mae ganddi hanesion diddorol am yr heriau a wynebodd. Y mae'r ddau'n Gristnogion gloyw sy'n caru'r Iesu ac am fwy na hanner can mlynedd y mae eu cyfraniad i fywyd Ebeneser wedi bod yn aruthrol.

Ymhlith pethau eraill bu Eira gyda'r Ysgol Sul, yn cyfeilio, yn cymryd rhan mewn oedfaon, yn



Parhâd ar dud. 2

(O dud.1) weithgar gyda Chymdeithas y Chwiorydd ac yn Is-ysgrifennydd. Un o'i diddordebau mawr yw gwneud pwythwaith. Yn yr un modd bu Malcolm yn fawr ei gyfraniad mewn cymaint o ffyrdd a edeunaw mlynedd yn ôl fe'i hetholwyd yn Ysgrifennydd yr eglwys fel olynydd i'r diweddar annwyl Dr. Emrys Evans. Y mae wedi bod yn Ysgrifennydd heb ei ail, yn weithgar, gydwybodol, croesawus ac yn gefn aruthrol i bawb ohonom trwy droeon yr yrfa.

Buom yn pendroni'n hir ynglŷn â beth allem ei roi i bobl sydd â phopeth. Y penderfyniad oedd comisiynu Dr Eirian Dafydd i gyfansoddi englynion i'r ddau ac fe'i cyflwynwyd iddynt fel arwydd o'n diolch mawr ac o'n parch dwfn tuag atynt. Dyma'r englynion,

***Eira Jones***

*O edau wen ei deunydd a geiriau*
*y Gair sy'n dragywydd*
*y lluniwyd â llawenydd*
*sampler ei phader a'i ffydd.*

***Malcolm Thomas***

*Y mae gwres yn fflam ei groeso, a gras*
*yw'r grym sy'n ei lywio*
*i roi'i fryd ar droi ei fro*
*yn aelwyd i'w hanwylo.*

---




**Y Cristion -** I danysgrifwyr y cylchgrawn Cristion bydd y pris yn codi i £2 y copi o rifyn Gorffennaf/Awst eleni. Felly yn hytrach na thalu £1.50 am weddill y flwyddyn byddaf yn casglu'r arian ym mis Ionawr 2023 h.y. £12 am y flwyddyn newydd a £1.50 wedi ei gario ymlaen yn gwneud cyfanswm o £13.50 yn ddyledus. Parhau i fod yn FARGEN!! **Arwel Williams**


---




**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o'r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o'r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett.

(O dud. 1) y we yn unig, ond yn y diwedd ildiodd i'r galw cynyddol fu i'w gyhoeddi fel cyfrol bapur.

Ers degawdau y mae'r Arglwydd wedi rhoi baich enfawr ar galon Arfon dros ieuenctid a phobl ifanc Cymru. Ei ddyhead mawr yw gweld adnewyddiad ysbrydol ymhlith ein hieuenctid gan weld miloedd yn dod i ffydd yn yr Arglwydd Iesu. Y mae wedi gweithio i'r perwyl hwn trwy gydol ei oes gan weddïo, pregethu, annerch, trafod, trefnu gweithgareddau, paratoi llenyddiaeth a chyfieithu caneuon Cristnogol ymhlith pethau eraill. A hyn yn bennaf a'i hysgogodd i wneud cyfieithiad newydd o'r Beibl mewn Cymraeg cyfoes. Sylweddolai bod ieithwedd y Beibl Cymraeg Newydd yn anodd i ieuenctid ac o ganlyniad fod llawer ohonynt yn defnyddio Beiblau Saesneg. Y mae beibl.net wedi llenwi bwlch mawr yn ein llenyddiaeth Gristnogol ac wedi agor gair Duw i lawer o bobl. Un o'r datblygiadau annisgwyl yw bod rhai Cristnogion yn eu 80au a'u 90au yn defnyddio beibl.net gan ddweud ei fod wedi goleuo rhannau tywyll o'r ysgrythur gan eu gwneud yn ll awer mwy dealladwy, yn enwedig yn yr Hen Destament.



Llongyfarchiadau mawr i Arfon gan bawb yn Ebeneser am yr anrhydedd hwn. Llawenhawn gydag ef yn ei anrhydedd, gan ddiolch o galon iddo am ei holl waith yn enw ein Gwaredwr Iesu Grist.

**Doethuriaeth**

Yn sgil ei radd Doethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Bangor fe ysgrifennodd Dr. Eirian Dafydd, Caerdydd, englyn i Arfon Jones er mwyn nodi'r achlysur arbennig. Dyma fo.

I Dr Arfon beibl.net
04.07.22

*Ag afiaith bu'n cyfieithu i roi'r Gair*
*ar goedd i'w gyd-Gymry,*
*a'r llên yn iaith lafar llu*
*yn nod er mwyn cenhadu.*

# NEWYDDION

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Gwyneth Briwnant Jones, ar farwolaeth ei gŵr Gwyn.

**Llongyfarchion**
Llongyfarchiadau i Hywel Glyn Davies a Camilla Ling ar eu priodas yng Nghaerfaddon ar 23 Gorffennaf. Mae Hywel yn fab i Wyn a Nora Davies.

Llongyfarchiadau i Bethan a Jon Ellis ar enedigaeth eu mab i Tomi Prys. Brawd bach i Mali, Macsen a Loti ac ŵyr newydd i Gill a Gethin Lewis.

Llongyfarchiadau i'r bobol ifanc sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau TGAU, Lefel A, a hefyd myfyrwyr sydd wedi graddio.

Llongyfarchiadau i Rhiannon Williams, merch Dai a Buddug, ar gael ei derbyn i Orsedd y Beirdd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Tregaron.

Llongyfarchiadau i Gwilym Tudur ar dderbyn ei radd M.Phil ym Mhrifysgol Rhydychen (o’r diwedd). Gorffennodd y radd ddwy flynedd yn ôl ond oherwydd amgylchiadau nid oedd modd ei derbyn yn swyddogol tan eleni.

Llongyfarchiadau i Branwen Jones ar dderbyn ei gradd yn swyddogol. Er ei bod wedi derbyn y radd ers misoedd lawer fe aeth y llun ohoni sydd ar y dudalen ôl ar goll yn mhlygion dirgel y seibr ofod!

**Cleifion**
Y mae Hazel Doull yn Ysbyty Dewi Sant ar hyn o bryd.
Cofiwn am Helen Hilling sy’n parhau i dderbyn triniaeth.

Cofiwn hefyd am y rhai hynny sy’n gaeth i’w cartref neu i gartref gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans.

Cofiwch weddïo drostynt a chodi’r ffôn am sgwrs.

**Elusen Tir Dewi**
Newyddion ardderchog, yn ystod mis Awst oedd clywed fod Gwynfor a Siân Morgan bellach wedi cwblhau Her y 3 chopa, er budd elusen Tir Dewi. Yr oeddent eisoes wedi dringo i gopa’r Wyddfa a Phen y Fan a’r copa olaf a goncrwyd oedd Cadair Idris gerllaw Dolgellau. Diolch iddynt am eu hymderech i godi arian.

# Te Prynhawn

**O**herwydd salwch bu rhai gohirio'r Te Pnawn oedd i'w gynnal yn ystod mis Gorffennaf tuag at ein helusen am eleni sef, Tir Dewi. Y mae'r elusen hon yn ceisio bod yn gefn i'r teuluoedd a'r unigolion hynny sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru. Maent yn darparu cyngor ymarferol ac hefyd yn rhoi clust i wrando ar y rhai hynny sy'n teimlo fod pethau yn mynd yn drech na hwy. Mae'n ddyddiau dyrys ac anodd i ganran uchel o'r boblogaeth ond y mae yn eithriadol o heriol i fyd amaeth gyda natur unig a chorfforol y gwaith, Brexit a'r cynnydd mewn prisiau tanwydd a bwyd. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwaith y gyflawnir gan Tir Dewi trwy ymweld â'u gwefan tirdewi.co.uk



**Y** mae nifer o weithgareddau wedi eu cynnal gan Eglwys Ebeneser i godi arian eisoes yn ystod 2022, e.e., rhedeg, mynydda, tyfu blodau ac adara. Un peth sy'n flynyddol yn codi pentwr o arian yw cadw-mi-gei.Cofiwch roi rhywbeth yn wythnosol yn y blwch ac ddiwedd y flwyddyn byddwn yn casglu'r cyfan.

**Y**n dilyn ein hoedfa ar brynhawn Sul 04 Medi fe gynhaliwyd Te Pnawn er mwyn codi arian. Roedd y tîm elusen wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn paratoi a threfnu ac yr ydym yn eu dyled am eu gwaith mawr. Hwyliwyd y byrddau yn gymen addurnedig yn festri capel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd. Gosodwyd y danteithion a baratowyd gan yr aelodau ar y byrddau hyd nes yr oeddent yn gwegian. Tynnent ddŵr glas i'ch dannedd dim ond wrth eu gweld. Daeth torf fawr o aelodau a ffrindiau at ei gilydd i loddesta ac i gymdeithasu yn hwyliog braf. Hyfryd oedd clywed y sbort a'r chwerthin wrth i bawb fwynhau. Hyd yn hyn y mae £399 wedi ei gyfrannau am y te a gwyddom fod rhagor ar y ffordd.



Diolch o galon i bob un fu'n rhan o'r digwyddiad yn coginio, gosod, gweini neu glirio.

## Gwyn Briwnant Jones

Nid oedd ond rhaid cerdded i mewn i gartref Gwyn a Gwyneth i sylweddoli ei fod yn ddyn dawnus. Roedd lluniau godidog o'i waith yn y lolfa yn portreadu un o'i brif ddiddordebau sef rheilffyrdd yng Nghymru a thu hwnt. Mae Duw yn grëwr ysblennydd a dysg y Beibl ein bod wedi ein creu ar ei lun a'i ddelw Ef ac o ganlyniad rydym ni yn bobl greadigol. (Gwel. Ex 35)

Person felly oedd Gwyn, dawnus ryfeddol ac ar ben hynny yn ŵr bonheddig, diymhongar, didwyll ac unplyg ac yr oedd yn fraint aruthrol ei adnabod. Hefyd roedd yn ŵr diwylliedig a gwybodus gyda diddordebau eang, ac roedd hynny yn ei wneud yn gwmni difyr, diddan a da.

Cofiaf siarad gydag ef am drenau ac yr oedd yn ei elfen yn sôn am hanes gosod y cledrau trên yn ardal Machynlleth. Cyfeiriai at y rhai hynny oedd wedi noddi'r gwaith a gwerthu tir. Wrth gwrs bu'n allweddol yn y gyfres deledu "Cledrau Coll" fu ar S4C a bu'n awdur nifer fawr o lyfrau. Digwyddais gyfeirio at Samuel Roberts, Llanbrynmair, un o'r tri brawd enwog ddeuent o'r cwmwd hwnnw. Gwyddwn fod S.R. yn gefnogwr brwd i ddatblygiad rheilffyrdd yng Nghymru yn yr 19fed ganrif. Wrth i mi sôn fe loywai llygaid Gwyn oherwydd fe wyddai yn iawn amdano ac am ei gyfraniad i ddatblygiad y rheilffyrdd.

Mewn sgwrs arall digwyddais ofyn iddo, pwy oedd ei hoff arlunydd? Atebodd Gwyn ar ei ben mai Richard Wilson oedd hwnnw. Nid oeddwn erioed wedi clywed amdano, ond fe aeth ati i'm goleuo ynglŷn â hanes ac arddull Richard Wilson. Fe gafodd ei eni ym Mhenegoes yn y 18g ac fe arbenigodd mewn tirluniau yng Nghymru a'r Eidal. Gallwn ymhelaethu am Madam Patti, Machynlleth, lle y cafodd ei eni a'i fagu, operâu a cherddoriaeth. Fe gafodd aelwyd gerddorol gyda'i fam Mrs Lilian Briwnant-Jones yn gyfeilydd o fri.

Bu Gwyn a Gwyneth yn ran o fywyd Ebeneser pan yn y coleg ac yna wedi cyfnod yn Llanfair Dyffryn Clwyd a Llangollen fe ddychwelasant i Gaerdydd gan ail ymaelodi yn Ebeneser ym 1995. Fe'i hetholwyd yn ddiacon yn eglwys Ebeneser yn 2003 ac yr oedd ei natur bwyllog a doeth yn gaffaeliad mawr yn enwedig pan oeddem yn ystyried gwerthu'r adeilad ar Heol Siarl.

Cydymdeimlwn gyda Gwyneth yn ei cholled a'i hiraeth ac wrth wneud hynny hoffem fynegi ein gwerthfawrogiad o'ch gofal cariadus dros Gwyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf . Roedd eich tynerwch a'ch addfwynder yn esiampl inni a hynny yng nghyfod anodd a rhwystredig COVID-19.

Ffarweliwn gyda Gwyn yng nghyd-destun Atgyfodiad yr Arglwydd Iesu a'i fuddugoliaeth dros angau. "Dywedodd Iesu wrth Martha, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth." Dyma sail ein sicrwydd yn wyneb marwolaeth ac yn y cyd-destun hwn y diolchwn am Gwyn ac am ei gyfraniad i waith teyrnas Dduw, i Ebeneser ac i'n bywydau ninnau.

Cynhaliwyd angladd Gwyn yn Amlosgfa Thornhill ar 18 Awst 2022. Cyfeiliwyd gan Helen Thomas a chymerwyd rhan gan Ifor James, Arfon Haynes Davies ac Alun Tudur .

**CLWB SÊR** - Ail lansiwyd yr ysgol Sul plant cynradd yn ystod mis Mai o dan yr enw Clwb Sêr. Oherwydd mae sêr yn Ebene-sêr. Hoffwn eich annog i weddïo dros ein gwaith gyda theuluoedd a phlant gan ei fod yn anodd creu momentwm. Gweddïwch y bydd rhagor o deuluoedd yn dod yn gyson a gweddïwch y cawn arweiniad fel eglwys i addasu yn ddoeth i'r gymdeithas gyfoes. Ar hyn o bryd mae'r clwb yn cael ei gynnal yng nghanolfan yr Eglwys Newydd, Caerdydd, am 10.00 ar fore Sul. Ond ym mis Tachwedd byddwn yn arbrofi trwy ei gynnal am 3.00 ar bnawn Sul yng nghapel y Methodistiaid. Os ydych am dderbyn e-bost teuluol wythnosol cysylltwch trwy aluntudur@btinternet.com.

**Rydym wirioneddol angen pobl i helpu ar fore Sul gyda'r Clwb Sêr. Y mae'r holl wersi yn cael eu paratoi gan y Parch Catrin Roberts - ac yr ydym mor ddiolchgar iddi am y gymwynas honno. Os gallwch chi roi awr pob rhyw 6 wythnos i gynorthwyo byddai hynny yn wych. Rhaid inni fuddsoddi amser ac adnoddau i'r gwaith hollbwysig hwn. Cysylltwch gydag Alun.**

**LLANLLANAST** - Mae'r sesiwn Llanllanast nesaf yn cael ei gynnal am 10.00 bore Sul 18 Hydref yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Diolchgarwch fydd testun y sesiwn ac yn dilyn y digwyddiad bydd bwyd i bawb, yn blant, rhieni ac oedolion. Bore hwyliog o gemau, crefftau, stori, cân a llond bol o chwerthin. Dewch draw am ddigwyddiad llawn sbort.
Diolch o galon i'r tîm cydwybodol am eu holl waith.

**CWRDD GWEDDI** - Un o hanfodion pob eglwys fyw yw cwrdd gweddi cyson, lle y cawn gyfle i rannu a thrafod ein ffydd, edrych ar ran o'r Beibl a throi i siarad gyda'r Arglwydd mewn gweddi. Ers dechrau mis Medi rydym wedi bod yn cyfarfod wyneb yn wyneb am 7.30 nos Lun yng nghaffi Roundabout capel y Methodistiaid yr Eglwys newydd. Rydym hefyd yn defnyddio Zoom i'r rhai sy'n methu ymuno'n gorfforol. Mae croeso mawr i bawb ymuno.



# NEGES FAWR Y
# Proffwyd Bach

Fel Cristnogion rydym wedi bod trwy gyfnod eithriadol o anodd ac rydym yn parhau i weld effaith hynny ar ein cynulleidfaoedd. Er hynny dymunwn fendith, gweledigaeth a nerth i bawb ohonoch trwy bresenoldeb yr Ysbryd Glân. Boed i'r Arglwydd rymuso eich gwaith dros ei Deyrnas yma yng Nghymru.

## Neges Galonogol

Ond sut mae dal ati mewn cyfnod o drai pan mae pobl yn cefnu a'n hachosion mor wan? Er mwyn eich annog i ddal ati'n hyderus, hoffem dynnu eich sylw at baragraff clo llyfr y Proffwyd Habacuc. Yma mae geiriau bendigedig a neges bwysig inni fel Cristnogion yn y cyfnod arbennig hwn.



17 Er nad yw'r ffigysbren yn blodeuo,
ac er nad yw'r gwinwydd yn dwyn ffrwyth;
er i'r cynhaeaf olew ballu,
ac er nad yw'r meysydd yn rhoi bwyd;
er i'r praidd ddarfod o'r gorlan,
ac er nad oes gwartheg yn y beudai;

18 **eto** llawenychaf yn yr ARGLWYDD,
a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.

19 Yr ARGLWYDD Dduw yw fy nerth;
gwna fy nhraed yn ysgafn fel ewig,
a phâr imi rodio uchelfannau. Habacuc 3 BCND

Yma, mae'r proffwyd yn disgrifio cyfnod anodd lle nad yw'r cnydau yn dwyn ffrwyth ac y mae'r rhagolygon yn dywyll. Y mae aflwyddiant i'w weld yn glir ym mhob man. Ond yna yn adnod 18 fe ddywed "**eto** llawenychaf yn yr ARGLWYDD, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth."

## Eto

Er y methiant a'r aflwyddiant y mae yn parhau i lawenhau yn yr Arglwydd. Gair bach trawiadol yw'r gair **eto** yn adnod 18 sy'n newid naws y neges ac yn ei throi i fod yn gadarnhaol. Er y tryblith oedd yn ei fywyd, eto roedd llawenhau yn Nuw. Ceir yr un ergyd gan Job lle dywedir, "Pe lladdai Efe fi, **eto** mi a obeithiaf ynddo Ef." Job 13: 15

Ar un modd yn hanes y tri gŵr a daflwyd i'r ffwrnais dân yn Llyfr Daniel, wrth gyfarch y brenin.

*"Os ydy'r Duw dyn ni'n ei addoli yn bodoli, bydd e'n gallu'n hachub ni o'r ffwrnais dân ac o'ch gafael chi, o frenin.* **18** *Ond hyd yn oed os ydy e ddim yn gwneud hynny, sdim gwahaniaeth. Does gynnon ni ddim bwriad addoli eich duwiau chi, na'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi." Daniel 3: 17 beibl.net*

## Ydwyf yr hyn Ydwyf

Roedd Habacuc yn addoli Duw nid oherwydd unrhyw fanteision neu fendithion yr oedd yn eu derbyn ond oherwydd mai Duw ydoedd. A dyna beth mae Duw yn ei haeddu. Haedda ein mawl, ein teyrngarwch doed a ddelo. Nid ydym yn addoli Duw er mwyn inni gael bywyd rhwydd, bwyd ar ein byrddau neu iechyd. Rydym yn addoli Duw oherwydd mai ef yw'r Tad nefol sydd wedi ein creu, sydd yn ein cynnal ac yn ein hachub trwy wyrth a rhyfeddod gwaith Iesu trwy ei fywyd perffaith ei farwolaeth aberthol ar y groes a'i atgyfodiad. Dyma yw ffydd, ymddiried yn Nuw beth bynnag sy'n digwydd. Fel y dangosodd Iesu yng ngardd Gethsemane, pan ddywedodd wrth ei dad nefol, "Boed i'r cwpan hwn fynd heibio. Onid nid fel y mynnaf fi ond fel y mynni di."
Roedd yr Iesu yn berffaith fe gyflawnodd ewyllys Duw yn llwyr eto ni chafodd fywyd rhwydd, a bu farw ar groes. Eto cadwodd yn driw i'w Dad. Dyma'r hyn a welwn yn Habacuc caru Duw am ei fod yn Dduw llawn cariad gan ymddiried mewn ffydd yn ei sofraniaeth. Ei addewid yw Ei fod gyda ni bob amser beth bynnag yw troeon yr yrfa (Math. 28:20)

Gallwn yn rhwydd aralleirio'r geiriau hyn yn Habacuc gan ddweud,

Pan mae salwch yn dod ac iechyd yn brin
Pan mae rhyfel a dim sôn am heddwch
Pan mae'r economi yn simsan a'r biliau yn ddrud
Pan mae bywyd yn galed am ysbryd yn isel
Pan gollaf fy swydd a dim bwyd ar y bwrdd
Pan mae'r eglwysi yn wan a ffydd ar drai

Eto, bydda i'n addoli'r ARGLWYDD
  ac yn dathlu'r Duw sydd yn fy achub i!
Mae'r ARGLWYDD, fy meistr, yn rhoi nerth i mi,
  ac yn gwneud fy nhraed mor saff â'r carw
  sy'n crwydro'r ucheldir garw.

Ar gychwyn tymor yr Hydref a'r gaeaf ar ein gwarthaf, mae Duw yn sofran, yn dal i lywodraethu ac yn dal i'n caru yn Iesu. Y mae ei law Ef ar y llyw. Felly, ymrown i fyw a chyhoeddi'r newyddion da yn Iesu Grist a llawenhau gyda'n gilydd yn yr Arglwydd.

# Croeso cynnes Cymreig

*Aeth Carys Mair Jones i gynhadledd am ymgeiswyr lloches. Dyma ei argraffiadau.*

**C**afodd digwyddiad o'r enw 'Croesawu ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid yn ein dinas a'n cymunedau' ei gynnal yn Glenwood, Caerdydd ar 14eg o Orffennaf. Bwriad y digwyddiad oedd i godi ymwybyddiaeth am y sefyllfa yn ein byd heddiw, adlewyrchu a rhannu syniadau, a rhwydweithio. Roedd hi'n hyfryd gweld gymaint yno, a chroesdoriad o eglwysi wedi mynychu fel un Eglwys yn rhannu'r un weledigaeth, i ddangos cariad Duw at y grwpiau bregus yma yn ein cymunedau ni.



Clywon ni leisiau amrywiol yn rannu gwybodaeth, profiadau a straeon, gan gynnwys cynrychiolwyr o Open Doors, Oasis a rhai eglwysi sy'n gwneud gwaith gwerthfawr i gefnogi ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid. Wrth i fwy a mwy o ffoaduriaid gyrraedd ein dinas, rhaid i'r Eglwys sefyll gyda nhw, a chamu i fyny i'r her o'n blaenau. Gweddiwn ar i Dduw agor ein llygaid i weld yr angen, ac i'n cymhwyso ni i her ein hoes, er mwyn i ni fod yn halen ac yn oleuni.

## Croeso Twymgalon

Un o'r cysyniadau wnaeth fy nharo yn ystod y digwyddiad ac sydd wedi aros gyda fi ers hynny oedd y syniad o roi 'croeso cynnes Cymreig' i'r ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd ein prifddinas. Mae croeso a lletygarwch yn werthoedd canolog i'n diwylliant ni yng Nghymru, ac yn werthoedd Beiblaidd y dylen ni weithio'n galed i'w cynnal a'u trysori. Mae ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid wedi gorfod gwynebu erchyllderau, heriau annychmygol, ac wedi cael profiadau trawmatig. Mae'n nhw oll wedi gorfod ffoi o sefyllfaoedd difriol, ac wedi gwneud teithiau hir ac anodd i gyrraedd eu cartref newydd, boed hynny dros dro neu'n hir dymor. Mae'r Cymry yn dda am ddarparu croeso cynnes, ac mae hyn yn ffordd allweddol o ddangos cariad at ein cymdogion newydd. Bydd hyn yn arwain at fagu perthynas hyfryd a chyfeillgarwch.

## Deall

Mae sefyllfaoedd a phrofiadau pob unigolyn sydd yn ceisio lloches yn y DU yn unigryw ac yn gymhleth. Mae'n bwysig i ni fel eglwys gael dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion, diwylliant a thrawma er mwyn gallu cwrdd ag anghenion pobl yn effeithiol mewn modd sensitif, gwybodus a llawn gofal. Mae nifer o adnoddau ar gael, ac mae'n bwysig gwrando ar bobl yn lle gwneud tybiaethau. Roedd y digwyddiad yn un ysbrydoledig a heriol, ac yn hawlio ymateb. Roedd yn galonogol clywed fod yr Eglwys a mudiadau Cristnogol lleol yn bod yn weithgar i geisio gwneud cysylltiad ystyrlon gydag ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid. Gallwn ymateb yn ymarferol, yn ariannol (trwy gefnogi elusenau fel Open Doors, Oasis, a phrosiactau fel Enfys Gobaith) a thrwy weddi. Mae'n hawdd gweld pobl yn y grwpiau hyn fel ystadegau, neu prosiectau, ond fel corff Crist rydyn ni'n cael ein galw i weld y pobl hyn trwy lygaid Duw a dilyn esiampl Iesu yn ei galon a'i ofal dros y bregus.



## Cydweithio

Edrychaf ymlaen at allu rhwydweithio mwy, er mwyn i ni gydweithio mewn undod fel Eglwys i wneud gwaith y Deyrnas ar y ddaear. Gweddiwn dros yr ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghaerdydd, a'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud i'w cefnogi; mae pwer, grym a gwerth mewn gweddi. Rydym oll wedi cael ein creu ar ddelw Duw, ac wedi'n caru gan Dduw – boed i'r gwironeddau yma fod yn sail i'n hymateb ni.

*"Rhaid i'ch cariad chi fod yn gariad go iawn – dim rhyw gariad arwynebol. Yn casáu y drwg â chasineb perffaith, ac yn dal gafael yn beth sy'n dda. Byddwch o ddifri yn eich gofal am eich gilydd, a dangos parch at eich gilydd. Peidiwch byth â gadael i'ch brwdfrydedd oeri, ond bod ar dân yn gweithio i'r Arglwydd yn nerth yr Ysbryd Glân.Byddwch yn llawen wrth feddwl am y cwbl sydd gan Dduw ar eich cyfer chi. Byddwch yn amyneddgar tra dych chi'n dioddef, a daliwch ati i weddïo. Rhannwch beth sydd gynnoch chi gyda phobl Dduw sydd mewn angen. Ewch allan o'ch ffordd i roi croeso i ymwelwyr yn eich cartrefi bob amser." – Rhufeiniad 12:9-13*

**Carys Mair Jones**

# Ymchwilio Mynwentydd



Carreg fedd Y Parch. H.M Hughes

**A**r ddechrau cyfnod cynnar Covid, dechreuais ddarllen llyfr gan Alun Roberts, *Discovering Welsh Graves*. Cefas fy ysbrydoli i ymweld â rhai o'm harwyr blaenaf mewn llenyddiaeth Gymraeg a gladdwyd mewn mynwentydd nepell o'm cartref yng Nghaerdydd. Synnais wrth ddarllen fod T. Rowland Hughes wedi'i gladdu ym mynwent Cathays a bod beddau Saunders Lewis a Dr Joseph Parry ym Mhenarth. Sbardunodd yr ymweliadau â'r beddau hynny ddiddordeb pellach a'r awydd i ddarganfod mwy am Gymry diddorol a gladdwyd yng nghyffiniau'r brifddinas. Gyda'r cyfnod clo ar y pryd yn cyfyngu ar ein gallu i deithio'n bell, penderfynodd fy ngŵr a minnau ddefnyddio'r cyfleoedd ymarfer corff a ganiatawyd gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio'n bellach rai mynwentydd lleol.

## IDDEWIG

Wrth grwydro'r gwahanol ranbarthau sy'n ffurfio mynwent Cathays, ceir trosolwg o hanes cymdeithasol poblogaeth y brifddinas. Er enghraifft, sefydlwyd mynwent Iddewig gyntaf y brifddinas gerllaw, yn sgîl rhodd llecyn o dir gan yr Arglwydd Bute. Daethom o hyd i fynwent Iddewig arall yn fuan wedyn, ger pentref Cefn Coed ym Merthyr.

## CATHAYS

Ym mynwent Cathays, mae henebion moethus di-rif wedi'u hadeiladu sy'n coffáu llu o ddinasyddion nodedig mewn meysydd crefyddol, diwydiannol, masnachol, morwrol a milwrol. Syfrdanol oedd beddau megis un Esgob John Hedley a John Cory. Ar y llaw arall, fe'm synnwyd mai plac syml a nodai leoliad bedd James Howell. Wrth ymchwilio, daethom ar draws beddau ambell gyn-weinidog Eglwys Ebeneser, megis y Parchedig John Morgan Evans (1826-1882) a'r Parchedig Hugh Michael Hughes (1858-1933).



Cofeb y Parch. J. M. Evans

Ymhlith beddau'r fynwent, mae carreg fedd eithaf di-nod ond eto trawiadol. Mae'n cofnodi man gorffwys merch 14 a

hanner oed o’r enw Louisa Maud Evans a gafodd ei lladd yng Ngorffennaf 1896, wrth neidio allan o falŵn uwchben Bae Caerdydd, fel rhan o stynt syrcas. Morwyn dlawd oedd Louisa a chymaint oedd y tristwch a’r cydymdeimlad cyhoeddus, trefnodd trigolion Caerdydd ymgyrch i godi cofeb addas i goffáu amdani.



Cofeb y Parch. William Williams, (Caledfryn)

## Y GROESWEN

Wrth deithio ychydig y tu allan i’r brifddinas, mae ymweld â mynwent Capel Groeswen, ger Caerffili’n cynnig mewnweledydiad i fywyd cymuned gwerinol Cymraeg, gyda nifer o’r beddau mewn cyflwr gwych, yn dyddio o’r ddeunawfed ganrif. Yn y fynwent hon mae bedd Caledfryn (1801-1869) a bedd Ieuan Gwynedd(1820-1852). Yn ogystal, mae llu o’r beddau’n coffáu anwyliaid fu farw yng nghyflafan gyntaf Senghennydd, Mai 24ain 1901.

## COLERA

Hynod o ddiddorol oedd ymweld â mynwent Colera Cefn Golau, uwchben Tredegar. Yn dilyn epidemig Colera yn yr ardal (1832), sefydlwyd y fynwent mewn man anghysbell ar wahân i fynwentydd eraill, a hynny er mwyn ceisio rhwystro’r haint ofnadwy rhag lledu. Yn anffodus, dim ond ychydig o olion y cerrig beddau sy’n weddill heddiw. Serch hynny, mae’r ychydig o’r arysgrifau sy’n weladwy yn cofnodi’n glir ddyfnder y tristwch a’r galar teuluol.



Cofeb y Parch, Evan Jones (Ieuan Gwynedd)

Wrth drafod beddau de Cymru, ni ellir peidio â chyfeirio at fynwent Aberfan a’r drychineb a drawsnewidodd y gymuned honno ar 21ain Hydref 1966. Torcalonnus ydy ymweld â’r gofeb a cherdded heibio’r beddau niferus sy’n cofnodi’n addfwyn am yr anwyliaid bychain a gollodd eu bywydau yn dilyn y drychineb na ddylai fod wedi digwydd.

Edrychaf ymlaen at barhau’r hobi bach newydd hwn gan godi ymhellach fy ymwybyddiaeth o hanes trigolion amrywiol ein gwlad.

***Gweneth Evans***

## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Carys Mair Jones ar 07824 337251.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

**Paradise Run -** Y mae elusen Enfys Gobaith am ailgychwyn y Paradise Run fydd yn bwydo'r digartref yng nghanol dinas Caerdydd pob nos am 8.00 yh. Mae Ebeneser yn codi tîm i helpu ar nos Sul 1 waith pob 4 wythnos. Os gallwch chi helpu anfonwch destun at Alun ar 07814 536208

**Recordiadau -** Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Ryan Jones am ei help.

**Tîm Digidol -** Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal -** Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser. Bellach mae'r Adroddiad Blynyddol 2021 yr eglwys wedi ei bostio at yr holl aelodau. Diolch i bawb fu wrthi'n paratoi yr Adroddiad ac i Eilir am ei holl waith.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

## ANGOR

Mae Angor yn cyfarfod ddwywaith y mis am 4.30 yng Nghanolfan Reach, Grangetown. Fel arfer ar yr ail a'r pedwerydd Sul o'r mis. Digwyddiad cwbl anffurfiol yw hwn gyda phaned, sgwrs a chrefftau i'r plant. Mae'n gyfarfod delfrydol i deuluoedd yn ne'r ddinas sydd gyda gweithgareddau eraill ar fore Sul.




Yn ystod y mis diwethaf y mae sesiynau rhagorol wedi eu cynnal yn defnyddio adnoddau penigamp Cymdeithas y Beibl. Y Mae Gwilym Jeffs wedi siarad am arwyddocad hanes y cwymp yn Genesis a Carys Mair wedi rhannu am hanes y dilyw ac arch Noa. Yn y cyfarfodydd y mae cyfle i gymdeithasu dros baned ac yna fe wedi cyfnod o addoliad fe geir cyflwyniad byr.

Beth am wahodd rhywun i ddod i Angor? Os oes gen ti deulu yn byw yn ne'r ddinas beth am roi gwybod iddynt am gyfarfodydd Angor.

## Y CYLCH

Cyfarfod newydd sydd wedi cydio dros yr haf yw'r Cylch. Ei fwriad yw rhoi gyfle i aelodau a ffrindiau i gymdeithasu a chael paned gyda'i gilydd mewn awyrgylch braf. Cynhelir Y Cylch bob pythefnos yng nghaffi Roundabout, capel y Methodistiad, yr Eglwys Newydd 10.30 – 11.30. Beth am daro heibio yn achlysurol? Y dyddiadau nesaf yw 18/10, 1/11.



# YR ANGEN AM WEDDI

## Salm 138

"Pa eisiau sydd i mi weddïo am fy mara beunyddiol; byddaf yn ei gael p'un a weddïaf amdano ai peidio" meddai dyn ifanc wrthyf ryw dro. Efallai y byddwch, meddwn innau, ond y mae'n amheus gennyf a fydd yn gwneud llawer o les i chi. Y mae dwy ffordd o wneuthur popeth - ffordd faterol a ffordd ysbrydol. Fe ganiatâ Duw am ein bara beunyddiol inni p'un a fyddwn yn gweddïo amdano ai peidio, fel y mae'n glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn a pheri i'w haul godi ar y drwg a'r da. Yr hyn a wnawn wrth weddïo am ein bara beunyddiol a diolch amdano ydyw cydnabod daioni Duw a derbyn ei ddaioni'n ddiolchgar. Mater o'n perthynas ni a Duw ydyw.



"Mae 'nhad yn dathlu ei ben-blwydd heddiw ac yr wyf am brynu anrheg ben-blwydd iddo," meddai merch fach wrth ei chyd-ddisgyblion. "Gan bwy gewch chi brês i'w brynu?" gofynnodd un ohonynt. "Gan fy nhad wrth gwrs," atebodd hithau. A dyna'r union berthynas sydd rhyngom ni â'n Tad nefol. A dyna'r union beth a gydnabyddir gennym wrth weddïo am ein bara beunyddiol, sef mai pobl heb ddim ydym ond fel y byddwn yn derbyn ganddo Ef. Ni fuaswn yn dy geisio Di oni bai i Ti eisoes fy nghael gweddïai Pascal. "Mewn deisyfiadau diolchgar a hyderus yr ydym mewn gwirionedd yn cydnabod fod Duw yn Dduw," meddai Luther.

Gan hynny, y mae gofyn a ddylem weddïo am ein bara beunyddiol yn golygu gofyn cwestiwn mwy o lawer, sef a ydym yn credu bod yna Dduw ar yr Hwn yr ydym yn dibynnu? Rhodd gras Duw yw popeth a feddiannwn ni - rhodd ddihaeddiant, ac na ellir ei haeddu. Am hynny, diolchgarwch yw sylfaen pob gwir addoliad.

Nid "Os byddwch yn gweddïo" a ddywedodd yr Iesu, ond "Pan weddïech." Yr oedd Ef yn cymryd yn ganiataol fod dynion yn gweddïo.

GWEDDI Hollalluog Dduw, yn yr hwn yr ydym yn byw yn symud ac yn bod, yr wyf yn cydnabod mai ohonot Ti a thrwot Ti ac i Ti y mae pob peth. I Ti y byddo'r gogoniant yn dragwyddol. Amen.

(Allan o'r gyfrol Ar Ddechrau Dydd, T. Glyn Thomas.)

# Llifogydd dychrynllyd yn Pacistan

Gan fod y sefyllfa mor ddychrynllyd mae eglwys Ebeneser wedi cyfrannu £500 tuag at Apêl Argyfwng mewn ffydd y byddwn ni fel aelodau a ffrindiau yn cyfrannu o leiaf hynny. Yn ôl llywodraeth Pacistan, mae traean o'r wlad – sy'n cyfateb i ardal yr un maint â gwledydd Prydain – o dan ddŵr, yn yr hyn y mae Ysgrifennydd Cyffredinol y DU, Antonio Guterres wedi'i alw'n "drychineb hinsawdd". Mae pentrefi cyfan wedi'u torri i ffwrdd, gyda gwasanaethau brys yn brwydro i'w cyrraedd. Mae o leiaf 1,100 o bobl wedi'u lladd a 1,500 wedi'u hanafu.

Mae asiantaethau cymorth yn ymdrechu i ddiwallu anghenion sylfaenol pobl gyda bwyd, dŵr glân a lloches, ac mae llywodraeth Pacistan wedi galw am gymorth rhyngwladol i ddarparu cymorth dyngarol.
Mae ardaloedd enfawr o dir amaethyddol wedi'u heffeithio, gyda chnydau'n cael eu hysgubo ymaith a thri chwarter miliwn o dda byw wedi marw. Bydd yn golygu bod llawer o bobl yn newynu. Canlyniad arall hefyd y bydd clefydau sy'n cael eu cludo gan ddŵr yn lledaenu. Mae adroddiadau eisoes wedi bod o golera yn sgil y llifogydd. Er ei fod yn hawdd ei drin, gall colera ladd mewn ychydig oriau a gall ddatblygu mewn byr o dro i fod yn argyfwng iechyd.

## Elusennau DEC

Mae deg elusen DEC eisoes yn ymateb, naill ai'n uniongyrchol neu drwy bartneriaid lleol, ac maent wedi bod ymhlith y rhai sy'n helpu i achub bywydau a darparu cymorth brys. Ond maen nhw angen arian nawr er mwyn cyrraedd mwy o bobl, yn enwedig gan eu bod yn disgwyl i amodau waethygu.

Y blaenoriaethau yw darparu lloches dros dro, cymorth bwyd brys a dŵr glân i'w yfod. Mae elusennau DEC yn cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol ac asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig i helpu yn y ffyrdd sy'n mynd i'r afael orau ag anghenion y rhai y dioddefwyr. Gellir cyfrannu arian yn electronic id gyfrif Ebeneser gyda cyfeirnod Pacistan neu trwy law Eilir Jones.



# AGOR Y LLYFR

Mae Tim Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd wedi ailgydio yn eu gwaith o ymweld ac ysgolion i gyflwyno dramodig fer o stori Feiblaidd. Ar 23ain Medi buont ar ymweliad ag Ysgol Glan Morfa a chael croeso cynnes.

Ar hyd a lled Cymru y mae timau lleol yn cyflawni'r gweithgarwch pwysig hwn ac yn gwasanaethu ein hysgolion. Mudiad gwirfoddol yw Agor y Llyfr ac y mae croeso i unrhyw un i ymuno gyda'r tim. Os hoffech chi fod yn rhan o dim Eglwysi Caerdydd cywylltwch gyda Catin Roberts ar catrin.e.roberts@btinternet.com



**Taith gerdded -** Ar fore Sadwrn, 2ail o Orffennaf aeth criw ohonom am dro o gwmpas Fferm y Fforest o dan arweiniad Eirian Dafydd i edrych os allen ni weld nifer o adar gwahanol. Pwy fasen meddwl fod cymaint o adar gwahanol i'w clywed o'n cwmpas er na allen ni eu gweld. Enwodd Eirian nhw wrth eu clywed yn canu. Mae'r enwau Cymraeg mor hyfryd – a dim ond cyfran fechan o'r rhai glywyd yw rhain - iar fach yr hesg, hwyaden wyllt, crëyr glas, glas y dorlan, gwylan benddu leiaf, gwennol ddu, titw gynffon hir, Diolch i Eirian am fore mor ddiddorol. Mae bwriad i fynd eto tua mis Medi neu Hydref. Rhoddodd bawb gyfraniad tuag at ein helusen eleni, Tir Dewi.

**Shine** - Ar Nos Wener 7 Hydref bydd Petra Bennett a Lis Decaro yn cymryd rhan mewn taith gerdded hwyrnos 10k noddedig "Shine" o gwmpas Caerdydd a'r Bae. Elw tuag at Cancer Research UK. Byddwn yn cofio am berthnasau a chyfeillion fu'n byw gyda chancr, a ffrindiau sy'n cael triniaeth ar hyn o bryd. Os hoffech gyfrannu cysylltwch gyda Petra.

**Cerdded -** Tachwedd 18 - 28 bydd Catrin Wooler yn cerdded ym Mhatagonia er budd Marie Curie er cof am ei diweddar ŵr Dave a'i mam Freda. Os hoffech gyfrannu gellir gwneud trwy'r ddolen hon.

# Calendr

*Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD
*Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA
*Cynhelir **Angor** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT
7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.
7.30 - Pob pythefnos, ar nos Fawrth, cynhelir **Astudiaeth Feiblaidd, ODID** o dŷ i dŷ ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.



## Hydref

02 Dydd Sul. Oedfaon am 10.00* a 3.00* (Cymun) o dan arweiniad Alun. Bydd ffrwd byw ar Facebook a phaned yn oedfa'r bore. 10.00 Clwb Sêr yn CEN.
03 7.30. Cwrdd Gweddi Cenhadol.
04 7.15. Cyfarfod Diaconiaid ar Zoom.
09 Dydd Sul. Cyfarfodydd pregethu am 10.00 a 3.00 . Byddwn yn croesawu'r Parch. Dr. Geraint Tudur i agor y gair. Clwb Sêr i'r plant. Bydd ffrwd byw ar Facebook a phaned yn oedfa'r bore. 4.30 – Angor Grangetown*.
10 7.30 Cwrdd gweddi*
12 7.30. Pwyllgor gwaith Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg ar Zoom.
16 Dydd Sul. 10.00. Llanllanast Diolchgarwch yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Bwyd i bawb wedyn. 3.00 Oedfa o dan arweiniad Alun. 4.30 Angor Grangetown.
17 Cwrdd Gweddi
18 Y Cylch. 10.30 – 11.30 – Yng nghaffi'r Methodistiaid.
23 Dydd Sul. Oedfaon am 10.00 ( Cymun) a 3.00 o dan arweiniad Alun. Clwb Sêr i'r plant. Ffrwd byw ar Facebook a phaned yn y bore. 4.30 – Angor Grangetown yng Nghanolfan Reach
24 7.30 Cwrdd gweddi*
30 Dydd Sul. Oedfaon am 10.00 o dan arweiniad Simeon Baker a 3.00 o dan arweiniad Isaias Grandis. Dim Clwb Sêr. Ffrwd byw ar Facebook a phaned yn y bore.
31 7.30 – Cwrdd gweddi.

## Tachwedd

01 Dydd Mawrth. 10.30 - 11.30 Y Cylch yn cyfarfod yng Nghaffi'r Methodistiaid.
01 7.15 – Cwrdd Diaconiaid ar Zoom
05 Dydd Sadwrn. Taith Gerdded Gwylio Adar o dan arweiniad Eirian Dafydd. 10.15 - 11.30, cwrdd tu allan i Ganolfan Wardeniaid Fferm y Fforest. Parcio cyfleus gerllaw. Paned wedyn yng Nghaffi'r Methodistaidd 11.45. £5 y pen er budd elusen Tir Dewi.
06 Dydd Sul. Oedfaon am 10.00 a 3.00 (Cymun) o dan arweiniad Alun. Dim Clwb Sêr.

# CLWB SÊR

## TYMOR YR HYDREF

Da ni'n cyfarfod ar fore Sul yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd,Old Church Rd, CF14 1AD.

**HYDREF**
2/10 10.00 Clwb Sêr
9/10 10.00 Clwb Sêr
16/10 10.00 Llanllanast. Diolchgarwch pob oed
23/10 10.00 Clwb Sêr

30/10 Gwyliau
6/11 Gwyliau

Mae sêr yn Ebenesêr

